

Glas

Bwletin misol
Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif 184
Mehefin 2023

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Lucy Payne
Mynydd Llandygai
20 Ebrill 2023
Ymerawdwr (*Saturnia pavonia*)

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd


Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy cymuned.llennatur@gmail.com



« 'Dach chi'n gwybod y ffordd i Lerpwl? »

Roedd y Luftwaffe 'wrthi' uwch 'ein' pennau yn nyddiau tywyll 1941 heb i ni wybod dim (ac wedi bod wrthi llawer ynghynt yn adnabod targedau at y dyfodol - ac yn bomio.) Y 'gwaith gas' oedd dan sylw ganddynt dwi'n meddwl yn y llun hwn o Gaernarfon ar 1 Mawrth 1941.

DB



Caernarfon Harbour, 1 March 1941. Specific targets are identified, showing that pre-war espionage had effectively mapped out much by way of defensive installations.

Many of the reconnaissance photographs were taken using the Dornier D-17, 'the Flying Pencil'. The Dornier bomber had originally been built as an experimental high-speed mail plane for trials with the German civil airline Lufthansa. The aeroplane was an all-metal construction with a maximum ceiling height of 26,400 ft, and a maximum speed of 265 mph. Lufthansa rejected the plane, despite its exceptional performance, because of the difficulty passengers had entering its two small cabins. The aircraft were returned to Dornier and stored in a hangar, where a visiting Luftwaffe evaluation pilot saw them. Flugkapitan Robert Utucht took one of the planes for a trial flight and was impressed with the handling and design; he recommended that the planes' design be adapted as the basis of a new German bomber and reconnaissance aircraft.

Wedi codi'r llun o 'Adolf's British Holiday Snaps: Luftwaffe aerial reconnaissance photographs of England, Scotland and Wales' gan Nigel C. Clarke (Fonthill)

Mae'n talu weithiau i sefyll mewn ciw...

Codi sgwrs fer efo hen fachgen 85 oed yn Siop Chips Bryn yn Nghaernarfon mis diwethaf. «'Dach chi'n cofio'r Rhyfel?» me' fi. «Yndw tad» medd yntau. Ac aeth ymlaen i son fel oedd awyrennau'r gelyn yn defnyddio cofeb amlwg yn ardal Caergybi fel cyfarwyddnod-nos i fomio Lerpwl (a'r un peth ar eu ffordd 'adref'). Chwi gofiwch fod y 'blackout' ar waith yn y Deyrnas Gyfunol er mwyn ceisio rhwystro'r Almaenwyr rhag ddarganfod y targed. «Oedd yna olau felly ar y gofeb yng Nghaergybi?» gofynnais heb lawn ddeall. «Na» meddai'r cyfaill, «roedd o wedi ei baentio'n wyn». Roedd y ciw siop chips yn symud yn ei flaen a methais a gofyn iddo pam fod yr awdurdodau wedi dewis paentio'r gofeb yn lliw mor amlwg?

OES RHYWYN YN GALLU CADARNHAU Y STORI HON?

[Skinners Monument](#) yw ei enw, ar ôl Captan John Macgregor Skinner o'r Unol Daleithiau. Roedd o bosib wedi ei baentio'n wyn adeg y rhyfel i'w

wneud yn amlycach i forwyr mewn tywydd garw, i'w helpu i gyrchu eu llongau'n ddiogel i borthladd Caergybi - neu fel cymorth i beilotiaid i ffendio maes awyr RAF Valley (Llanfihangel yn Nhowyn yn y Gymraeg.) Mi fuaswn yn tybio mai'r ail yw'r mwyaf tebygol, ond pwy a wŷr.

Philip Lowies

Fe glywais rhywdro fod yr un peth yn wir am yr eglwys farmor yn Bodelwyddan.

Geraint Thomas

LLE ROEDD AWYRENNAU'R LUFTWAFFE YN CODI TANWYDD i'r fath daith o'r Almaen (neu ogledd Ffrainc ac yn ôl? Roedd lwerddon wrth gwrs yn niwtral ('ta oedd hi mor niwtral a hynny?))

Dyma gofnodion o'r Tywyddiadur gan DO Jones, Padog a TG Walker, Llangristiolus:



11 fed [Tach 1940] - *Germans* yn gollwng 10 o fomiau ar fferm y Muriau, Betws y Coed 6.30 y.h.. Un o'r bomiau wedi ei gollwng yn yr afon ac un arall yn clwt tatws ar ffarmwr wrthi yn codi tatws ar y pryd.



12fed [Tach 1940] - Mynd i Llanrwst gyda'r nos hefo beic i weld Ffilm 'George Formby'. Gweld tyllau y bomiau un ohonynt yr olaf o fewn pump llath i'r [sic.] ffordd Llanrwst.

Mae'r cofnod cyntaf yn awgrymu'n gryf bod awyrennau'r gelyn yn pashio yng ngolau dydd.

Dychwelyd tua'r lwerddon ar ôl cyrch ar Lerpwl?

Cofnodion hefyd 1941 gan TG Walker o Llangristiolus:



1 Ionawr 1941: *Wintry..a sprinkling of snow on the ground and snow fell during the evening. Jerry very active over Anglesey tonight*



2 Ionawr 1941: *wintry..cold..a Jerry plane awoke me this morning at six*



12 Ionawr 1941: *saw a Jerry plane plainly in the moonlight*

Gwell oedd gadael i'r Almaenwyr ollwng y bomiau ar leoedd heb boblogaeth ddwys nac ar ganol tref. Gollyngwyd bomiau ar dai gwydrau Pentreberw, y gwydr yn adlewyrchu golau'r lleuad a'r bomwyr yn tybio fod y fan yn ardal boblog, a hwythau hefyd yn awyddus i chwalu Pont y Borth. Chwalwyd dau neu dri o dai cyfagos ym Mhentreberw. Clywais fod yr Almaenwyr, a'r eu ffordd yn ôl wedi'r cyrch ar Lerpwl yn cael hwyl o gadw bom ar ôl, i'w ollwng yng ngogledd Cymru. Joan Strothers, merch o Gymru oedd yr un fu'n arbrofi gyda'r llafnau metalau, alwminiwm gan amlaf. O ollwng y llafnau o'r awyr roedd Radar yn cael ei gawlio tu hwnt i bob rheswm, gan gam-arwain awyrennau'r gelyn.

Tecwyn Owen


Rwyf yn cofio pan yn plenty 80 mlynedd yn ôl adeg rhyfal ar cae diarth i mi sef Mae's y Llan Bach Glanyrafon Sir Fôn. Roedd y caeau yn arian o *strips silver* tua 2 fodfedd o led ac o whanol hyd a miloedd ohonynt. Roedd y fferm ychydig filltiroedd o *RAF Valley*; yr hanes oedd mai i wneud rhywbeth i dwyllo'r gelyn oedd y pwrpas! [Bu'r] teulu yn casglu'r holl *strips* ac fe gefais i 2 far o siocled ganddynt a Wngwl John yn cael tynia o fwyd ac un tin yn ar arbenig: *peans* [sic].

John Rowlands

Ofergoeliaeth William Davies

Carreg goffa William Davies, Eglwys Llanfechell, Gwas ffyddlon William Bulkeley a chofnod o'i ddiwedd yn y dyddiaduron:

Jan 2 1752 ■ *"This honest good man had lived in my house and Service upwards of 32 years, always found him strictly honest and faithfull, was always sober, carefull & extream temperate, yet was frequently sickly and subject to fevers, was much given to give credit to dreams, & I believe this last sickness was entirely owing to it; he always rented lands, in the beginning. He rented Dymchwe – onely, but this last 17 or i8 years he rented the whole farm of Tai hên, which he greatly improved by Sanding, fenceing & hay Seed, & some years Since he made a bargain with his Father for Bodelwyn which he greatly improved both in*



the farm and house, God had so visibly blessed what he had, that he was very rich when he dyed"

Dyma'r 17 o gofnodion sy'n cynnwys enw William Davies (dolen) a dyma ddau gyfeiriad ar ddechrau'r dyddiaduron at natur "ofergoelus" William Davies :

March 30 1734 ■ *"Planted out ye beginning of this month 454. Fir trees, 203 of which I planted in gâllt ddu in Bodelwyn ye rest in the borders of the fields about Brynddu House, onely 13 I planted in lLanfachell Church garden ye 21st. of this month (being a Thursday) which day My Superstitious Servant Wm. Davies – believes to be lucky to begin every work of Moment)*

Aug 14 1735 ■ *" to day I begun to reap my Servt. will have every thing begun on a Thursday".* **Dewi Lewis**

Dydd lau yn gysylltiedig ar blaned lau, ac drwy hyny ffyniant neu lwyddiant yn ôl pobol syn dilyn astroleg. Ella hyny sydd yma? Ella ei fod yn dilyn almanac, neu ganllaw tebyg. Mewn byd ansicr efallai fod dilyn yr ofergoelion yn creu teimlad o neud rwbath "yn iawn" er mwyn osgoi pethau drwg, ac felly llwyddo. **Aled E. Jones**

....yn sicr. A ninnau efo 'gormod' o atebion bron i esbonio ein byd, doedd gan bobl o gyfnod, addysg a dosbarth William D. ddim dewis ond credu yn yr hyn sydd i lawer ohonom ni yn oferedd llwyr. Angor mewn tymestl.

Golygydd

Difyr tu hwnt. Tybed oedd ei rent yn codi ar y ffermydd oedd o'n eu gwella? Dyna oedd yn digwydd ers talwm.

Anita Myfanwy

Adar William Bulkeley (Rhan 2)

ADAR YN NYDDIADURON WILLIAM BULKELEY, BRYNDDU - RHAN 2 ADAR Y GWLYPDIR.

Fel nodwyd eisioes mae nifer o gofnodion am adar yn nyddiaduron William Bulkeley yn cael eu cyfuno gyda chofnodion am y tywydd neu hela. Nid rhyfedd felly oedd canfod bod nifer o gyfeiriadau at adar y gwlyptir yn cofnodi y rhywogaethau hynny oedd yn cael eu hela a'u saethu. Wrth gwrs nid oedd mynd allan i saethu bryd hynny ar yr un raddfa â'r partion saethu ffurfiol sydd yn cael eu trefnu heddiw. O ddarllen y dyddiaduron gellir casglu mai cyfle i ddau neu dri o gyfeillion a'u cwn i gyfarfod oedd yr achlysur. Weithiau byddai'r cwmni yn cerdded am ddiwrnod cyfan heb danio erwyd. Ar Dachwedd 8 1736 mae Bulkeley yn cofnodi:

"The Wind N. blowing high in the morning & very cold went out to day a Shooting with Cos. Hen. Hughes, and Abraham Jones, walked a vast deal of ground, saw neither a Partridge, woodcock, nor Hare in 5 miles walking, but in our way home at Llynn Llygeirian I shott 2 Teals out of 4. & Abraham Jones shot a Plover"

Mae'r cofnod uchod "saw neither a Partridge, woodcock, nor Hare in 5 miles walking" yn awgrymu nad oedd adar "gwyllt" yn niferus yn ystod y cyfnod. Tybed a oedd na ffesantod ar yr ynys bryd hynny oherwydd ni cheir yr un cofnod yn y dyddiaduron? Yn ogystal â'r cofnod uchod dim ond un cofnod arall at 'petris' y deuthum ar ei draws:

"October 17th". (1736) "The Wind N.W. made some showers of mizling rain in the Morning haveing rained prodigiously last night. but very calm & warm, went out with my Dog Ranter & killed one Patridge & came home before dinner."

Mae nifer o gofnodion yn y dyddiaduron yn dangos bod William Bulkeley yn cadw gwyddau, twrciod, hwyaid ac ieir, nid yn unig ar gyfer cael cyflenwad o gig a wyau ond hefyd er mwyn rhoi rhai, yn enwedig ieir a cheiliogod fel anrhegion. Fe gofir bod ymladd ceiliogod yn adloniant poblogaidd yn y cyfnod.

"29th. June" (1735) " The Wind S.W. in ye Morning, dark & rainy, cleared up about 10, and ye Wind came to W. Sharp & Cold, remained dry the rest of the Day — received two Chickens more from Pant y Gîst of the same hatch with those I sent to their Walks on the 8th. of this Month, being Chickens of a very Cocks good Hen of My Own, and Hafod y Llên Cock, One of which Chickens I sent to David Williams of Pen y Bont, the Colour Sooty dark, White feathers on the left Wing, and dark yellowish legs; Another Chicken sent to Richd. Williams Weaver of Tyddyn y Silied, the Colour light brown back & breast, with Silver coloured feathers in ye back, willow legg'd. both marked liked the former Chickens had the 8th Instant"

Ceir nifer o gofnodion sydd yn dangos bod William Bulkeley yn prynnu hwyaid (marw) gan eraill.

"11th" (January 1737) "Paid likewise to Abraham Jones 6d. for 2 Wild Ducks..."

Diddorol yw'r enw a ddefnyddiodd am hwyaid ifanc:

"24 June" (1736) *"went in the Evening to Llŷnn Cromlech with Dogs & 5 or 6 Neighbours to hunt floppers, or young Wild Ducks, could not take any with the Dogs, but I shot one flying"*

Mae William Bulkeley yn enwi tair math o hwyaden sef corhwyaden (S. teal), hwyaden wyllt (S. mallard) a chwiwell (S. wigeon), anodd gwybod yn union pa rywogaeth oedd "duck". O bosib iâr hwyaden wyllt oedd hon gan mai enw ar y ceiliog oedd "mallard" - fel y nododd Francesca Greenoak 'All the Birds of the Air' (1979), mai'r arfer hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd, *"The male Wild Duck only being called a Mallard"*.

"26th. Nov" (1736) *"The Wind N.E. clear, Sun-shiny & very fair all day pd. 1s. for wildfowl. viz a Duck & a Mallard, & 3 Teals."*

"7th. January" (1755) *"The Wind S. calm, cloudy. & dark weather & not cold, & dry all day; gave Thomas Hughes my Sister Betty's Son 2s. 6d. who brought me some Wigeons;...."*

Mae'r cofnodion am wyddau yn awgrymu bod William Bulkeley unwaith eto yn ymwybodol o effaith y tywydd ar adar ac mai adar mudol oeddynt yn ei dyb ef.

"Sepr. 26th." (1735) *"The Wind N. blowing fresh & very cold,..... Saw a Flock of Wild Geese passing thro this country for Ireland, the first I saw this year."*

"17th. September" (1739) *"The Wind E. dark & cloudy, & from 8 to 12 it made severall sharp – showers; the Evening fair & dry..... Gabriel Jones shot to day at a very great flock of Wild Geese on Cors y ddafad, alias Cors y Cilfaes, & killed two of them."*

"September 26th." (1740) *"The Wind N.E. blowing moderate, Sun shiny and fair all day,..... a very great hoar frost this morning; Flocks of wild Geese have come to this country already;"*

Dim ond un cyfeiriad y deuthum ar ei draws am alarch:

"31st. January" (1740) *"The Wind E. and blowing a fresh Gale & freezing all day,..... Pd. 1s. to Rolant ab Wm. Rolant, alias y Maharen bâch for a Swan he brought that he had shott in Porth y Pistyll."*

Tybed â oedd elyrch yn nythu yn yr ardal? Ceir cyfeiriad at "Nÿth yr Alarch" pan oedd diffyg yn y cyflenwad dŵr oherwydd rhew; o leiaf roedd cyfle i wyllo John Hughes yn sglefrio:

18th. December 1742 "..... In ye morning I went along with Mr. Wm. Lewis ye younger of Trysclwyn, Mr. John Hughes of Glan yr afon, & my Son to Llyn y Gors Rÿdd to see Mr. John Hughes scateing on the Ice, and he scated from Cae Rhôs y fownog in the South End of the pool to Nÿth yr Alarch in the North end of it in three minutes time – there being no water from Nÿth yr Alarch to the Damn [sic] only the great ditch which was not frozen."

Ceir un cyfeiriad at aderyn y bwn ("*Bithern*"). A chymryd bod yr aderyn wedi ei ladd yn lleol, a does dim lle i amau hynny, byddai hynny yn dangos bod adar y bwn wedi bod ar yr ynys gryn amser cyn y cofnod o 1899 ("*Adar Môn*" 2004).

"December 26th." (1747) *"The Wind E. & by N. and very moderate, Sun – shiny and fair, but cold with a hoar frost this morning, and a pretty hard frost; The Evening cloudy and overcast, but made no rain, but thawed gently. Paid 6d. for a Bithern to ye woman of Llanddygwel"*

Yr awgrym yw bod elyrch ac adar y bwn ar fwydlen Brynddu.

Un cyfeiriad hefyd a geir at gigfran a gostiodd 2s sydd yn swnio'n dipyn o bris. Yr awgrym yw mai aderyn byw ydoedd ond ni cheir unrhyw fanylion pellach am yr aderyn.

"April 20" (1742.) *"....gave 2s. to a boy that brought me a young Raven"*.

Fe gyfeiria William Bulkeley hefyd at "Mynÿdd y Gigfran" (19 Gorff 1756) sef enw trigfa Edward Roberts, tybed am mai yno roedd eu cynefin yn ystod y cyfnod?

Mae'n amlwg nad dryll yn unig roedd William Bulkeley yn ei ddefnyddio i hela oherwydd bu ei gi Ranter yn gyfaill ffyddlon iddo am sawl blwyddyn wrth hela.

"27th July" (1748). *"The Wind W. & by S. blowing very moderate & warm but cloudy & dark all day except 2 or 3 hours about noon; & continued dry all this day; To Day my old and faithfull Dog Ranter (who had been in my family from the i0 day December 1730 to this day, being 17 years & near 8 months) dyed: he was old enough when he came here to follow a horse, which he did from Gledlon in flint shire to this house, and I believe he had lived sometime longer had not he been carryed off by a Distempler which was a swelling in his head– his Teeth being better than severall many Dogs of half that Age."*

Mae'n ymddangos mai ar gyfer hela rhydyddion ar y tir roedd Ranter yn effeithiol a llwyddianus.


"18th. Oct" (1737) *"The Wind N.E. very fair & warm, & a prodigious dew this morning as if it had rained, but I believe it made no rain, went out with my Dog Ranter & killed a Curlew."*

Deuthum ar draws un cyfeiriad arall at 'gylfinir':

"28. Sept" (1734) *"The Wind N.E. calm and fair, was this day shooting with Abraham Jones, had onely one Curlew,...."*

Bydd rhan olaf yr erthygl hon yn ymddangos yn Glas 185

Ysgythriadau o gyfnod William Bulkeley gan Thomas Bewick





Bydd tîm Llên Natur yn rhan o Bioblitz Plas yn Rhiw ar 2 Mehefin 2023



Gwyfyn llenni crychlyd
Iwan a Linda Jones
7 Mai 2023



Duncan Brown
Waunfawr 7 Mai 2023



Olwen Ford
2 Mai 2023



Duncan Brown
30 Ebrill 2023



Cwciwl y Pannog
yn ymweld a Chaernarfon
26 Ebrill 2023



Oswyn Williams
23 Ebrill 2023



Duncan Brown
Brychan llwydrith
10 Ebrill 2023



Tywyn Niwbwrch
9 Ebrill 2023
Graham Williams



Carpïog Cynnar
Dylan Roberts
17 Ebrill 2023

Mae Bioblitz yn ras yn erbyn amser i gofnodi'r amrywiaeth o fywyd gwyllt a geir mewn lleoliad penodol. Ymunwch â ni ym Mhlas yn Rhiw ar dydd Sadwrn 2il o Fehefin i'n helpu i gofnodi cymaint o fywyd gwyllt â sy'n bosib.

A fydd y mathau o wyfynod sydd a'r y dudalen hon a chlwr y rhifyn hwn o Glas i'w gweld ym Mhlas y Rhiw?



Plas yn Rhiw
02.06.2023 | 9:30am - 5pm

Ymunwch â ni am ras yn erbyn amser i gofnodi'r amrywiaeth o fywyd gwyllt sydd i'w gweld o gwmpas Plas yn Rhiw mewn un diwrnod

Gweithgaredd i'r teulu oll


- Triplau cychod
- Teithiau cerdded
- Gweithdai
- Bywyd gwyllt
- a llawer mwy!



Holl wybodaeth ar ein gwefan
www.ecomuseumlive.eu



Dyma dudalen llyfr Edward Lhwyd: *Archælogia Britannica, Glossography, Armoric Grammar and Vocabulary*, by Julien Maunoir Jesuit.



Rhan o *Archælogia Britannica* am ieithoedd ydi'r *Glossography*. Cafodd ei yrru i'r argraffwr yn 1703 a'i gyhoeddi ym 1707. Yn ystod ei deithiau o gwmpas Ynysoedd Prydain a Llydaw aeth Edward Lhwyd ati i astudio mewn fordd "baralel", ieithoedd Prydain a'r Llydaweg: taith i Iwerddon rhwng Awst a Thachwedd 1699, taith i'r Alban rhwng Tachwedd/Rhagfyr 1699 a diwedd Ionawr 1700, taith arall i Iwerddon rhwng Ionawr ac Awst 1700, taith i Gernyw rhwng Awst 1700 ac Ionawr 1701 ac i orffen taith i Lydaw rhwng Ionawr a Mawrth 1701.

Ysbardyn Edward Lhwyd i fynd i Lydaw oedd gwaith Paul-Yves Pezron o Henbont yn ne Llydaw: *L'Antiquité des Temps rétablie... 1687*. Cyhoeddodd Pezron wedyn *Antiquité de la Nation et de la langue des Celtes autrement appelez Gaulois*, 1703. Roedd Edward Lhwyd yn awyddus i gwrdd â'r mynach Sistersaidd a oedd yn llawer llai gwyddonol yn ei waith na Lhwyd ei hun.

Roedd Lhwyd yn ddyn amryddawn ym meysydd natur, archeoleg ac iaith, ac fe grybwyllodd bod yna gyswllt rhwng yr ieithoedd rydym ni'n galw yn ieithoedd Celtaidd heddiw. Dyma pryd gafodd yr ansoddair 'Celtaidd', 'Celtique' i Pezron, ei ddefnyddio am y tro cyntaf a chael ei ddefnyddio ar gyfer ieithoedd Prydain, Llydaweg a'r Galeg (hen iaith frodorol Ffrainc). Aeth Edward Lhwyd yn bellach gan wahanu ieithoedd Celtaidd 'P' (Brythoneg) oddi wrth ieithoedd Celtaidd 'Q' (Goeddeg).

Yr ymwelydd cyntaf o Gymro â Llydaw a enwir yw Edward Lhwyd yr hynafiaethydd; yr ail yw Thomas Roberts, Llwynrhudol.

Arthur Meirion Roberts

Mi fu taith Edward Lhwyd yn Llydaw yn un fer iawn ac yn ddigon trafferthus hefyd i ddweud y gwir. Manteisodd ar gyfnod cadoediad rhwng Ffrainc a Phrydain Fawr i groesi'r Sianel rhwng Falmouth a Sant Malo (Saint-Malo) ac yna aeth i Kastell-Paol (Saint-Pol-de-Léon). Tra bu'n brysur yn cofnodi manylion cafodd ei arestio yr un pryd â masnachwyr o Loegr, a'i anfon i garchar yn nhref Brest. Cafodd driniaeth well na'r masnachwyr diolch i lythyr gan awdurdodau Esgobaeth Kastell-Paol. Cafodd ei rhyddhau ar ôl iddo ysgrifennu cais yn Lladin a fu'n allweddol i gael cymorth ei cymheiriaid, yn enwedig dau abad dylanwadol o Baris.

Ni lwyddodd Edward Lhwyd i gael gafael ar eiriadur tairieithog Llydaweg, Lladin a Ffrangeg Jehan Lagadeuc o 1499. Hwn oedd y geiriadur Llydaweg cyntaf - a'r geiriadur Ffrangeg cyntaf hefyd! Ni lwyddodd i gwrdd â Paul-Yves Pezron chwaith.

Llysieuydd ac ieithmon oedd Lhwyd, ymlith ei ddiddordebau eraill - ef, wrth gwrs, fu'n casglu a chofnodi planhigion Eryri. Penodwyd ef yn Geidwad Amgeuddfa Ashmole, Rhydychen, yn 1691.

Gan fwriadu astudio'r iaith Lydaweg ac wedi'i dysgu, glaniodd Edward Lhwyd yn Llydaw ym mis Ionawr 1706, a chyda'i gyddeithiwr, David Parry o Aberteifi, trefnodd i aros am dymor hir o ymchwil. Ond ni chawsant fawr o groeso. Drwgdy biwyd hwy o fod yn ysbïwyr ac i'r carchar ym Mrest y bwriwyd hwy. Dychwelodd i Rydychen a dod ar grwydr i Gymru ac ardaloedd diogelach eraill.


Arthur Meirion Roberts

Mae'r dudalen hon o'r *Glossography* yn ymwneud â'r unig beth lwyddodd Edward Lhwyd i gael ei afael arno, sef llyfr y Tad Julien Maunoir, an Tad Maner i'r Llydawwyr. Roedd Edward Lhwyd yn meddwl ei fod yn llawer rhy ddrud a bod geiriadur y Dr Davies, oedd ar gael iddo yn Lloegr, yn llawer gwaith gwell beth bynnag.


I gloi y drafodaeth hon mae sylw am gymeriad Julien Maunoir yn werth y drafferth i'w darllen, er y ffaith nad oedd ei gyfrol *Le Sacré Collège de Jésus* wedi llwyddo i ysbrydoli Edward Lhwyd.

Mae Maunoir yn cael ei ystyried yn "Apostol Llydaw". Mae ei fywgraffydd yn awgrymu iddo ddysgu Llydaweg chwech wythnos ar ôl iddo gychwyn. Mae'r chwedl yn dweud ei fod wedi dysgu Llydaweg mewn noson ar ôl i angel roi ei fys ar ei dafod tra roedd Maunoir yn gweddio yng Nghapel Ti-Mamm-Doue (Tŷ-Mam-Dyw), Kerfeunteun (Kemper/Quimper). Ei fwriad oedd cenhadu dros y ffydd Gatholig i Lydawyr gan ddilyn gorchmynion Cyngor Trent (tua 1560) i wrthsefyll effeithiau'r Diwygiad Protestannaidd. Roedd gan ei ragflaenydd Dom Mikael an Nobletz ("yr offeriad gwallgo") a fo ddulliau gweledol iawn i ddisgyblu gwerin Llydaw drwy ddangos lluniau pechodau marwol ac uffern. Awgrymir i'w genadaethau fod yn gymorth i ddistewi gwerin Llydaw a ddioddefodd orthrwm aruthrol y Llywodraeth Freninol ar ôl terfysgoedd ffyrnig y Capiaw Cochion (*Révolte du Papier Timbré*) tua 1675.

Ysgrifennodd Julien Maunoir ei *Sacré Collège de Jésus*, math o lyfr gramadeg, er mwyn hyfforddi offeiriad Llydaw Isaf, Llydaweg eu hiaith, a dyma pryd y dechreuwyd ysgrifennu treigladau yn y Llydaweg a defnyddio'r llythrennau *c'h*, tebyg i *ch* yn y Gymraeg. Cafodd ei wynfydu gan yr Eglwys Gatholig ym 1951.



Roeddwn i'n ymwybodol o gyfrol *Archælogia* gan Edward Lhwyd yn ogystal a'i daith drafferthus yn Llydaw. Mi fu'n fraint cael y cyfle i weld gopi o'r *Glossography* pan aeth 'grŵp Llên Natur' i gwrdd â disgynydd William Bulkeley ym Mhlas Brynddu, Ynys Môn, sef Robin Grove-White. DK

 Cysylltwch gyda ni:
cymuned.llennatur@gmail.com

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Ffliwcsan y mis



Sut goblyn..... Byddwch yn onast Delyth - ffliwcsan?!?! Ond mae pob llun ag elfen o'r ffliwcsan ynddi. LLONGYFARCHIADAU! Duncan Brown



Ia. Ffliwcsan go iawn! Yndi! Diolch!

Delyth Mair Williams Humphreys

Dyma lun gwbl anhygoel o wahanol, ond yn un i'w drysori reit saff - clyfar dros ben .

Dora Edwards

Bron i 300 o ymatebion ar Cymuned Llên Natur RECORD!

Mae'r llun hwn wedi cyrraedd y byd! - Llydawr wedi ei weld o fy mlaen i (DK) ar Cymuned Llên Natur... yn Llydaw!

Cymro o wyfyn!

Pori ar y teim yng Ngwm Idwal heddiw. 'Di methu canfod be ydi o ar y we, ond mi fydd na rhywun yma'n gwybod ma siwr! Ddi Enw



A dyma fymryn o hanes hwn a rhywogaeth eiconig arall i ogledd Cymru : [Cymuned Llên Natur](#) DB
A [wicipedia](#)...

Gwyfynod yng Nghymru

Un o bosteri Cymdeithas Edward Llwyd



Plu-wyfn gwyn *Pterophorus pentadactyla*



Brithyn cymylog bach *Apamea unaminis*



Gwyfn cinnabar *Tyra jacobaeae*



Rhain y pinwydd *Panolis flammea*



Blaen brigyn *Phalera bucephala*



Carpiog y derw *Crocallis elinguaris*



Gwyfn bwâu llwydfelen *Habrosyne pyritoides*



Gwyfn gwythien goch *Timandra comae*



Siobyn cynffon felen *Euproctis similis*



Brychan dŵr *Lampropteryx suffumata*



Gwyfn cynffon gwennol *Ourapteryx sambucaria*



Crynnwr Gothig *Orthosia gothica*